GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

# Rhaglen Frechu Brechiad Atgyfnerthu 3 mewn 1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a MenACWY





## Dogfen friffio ar gyfer penaethiaid a staff ysgolion

**Mae hon yn ddogfen friffio ar gyfer ysgolion. Mae'n ymwneud â'r rhaglen frechu yng Nghymru ar gyfer brechiad atgyfnerthu tetanws, difftheria a pholio (3 mewn 1 neu Td/IPV) i bobl ifanc yn eu harddegau, a meningococol ACWY (MenACWY).**

**Sicrhewch fod gan yr holl staff ysgol sydd angen gwybod am y rhaglen fynediad at yr wybodaeth hon.**

**Mae'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau yn amddiffyn rhag tri chlefyd difrifol - tetanws, difftheria a pholio.**

**Mae'r brechlyn MenACWY yn helpu i amddiffyn rhag grwpiau meningococol A, C, W ac Y, a all achosi llid yr ymennydd a septisemia.**

## Cymhwysedd ar gyfer y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 (Td/IPV) i bobl ifanc yn eu harddegau a brechiadau MenACWY

Mae'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY yn cael eu cynnig **am ddim i bob person ifanc rhwng 13 ac 14 oed** (blwyddyn ysgol 9).

Rhoddir y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau fel mater o drefn yr un pryd â'r brechlyn MenACWY yn rhan o'r rhaglen imiwneiddio genedlaethol. Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael cynnig y brechlyn yn yr ysgol, ond bydd y rhai sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael cynnig y ddau frechlyn hyn gan eu Practis Meddyg Teulu.

Fel rheol, mae'r brechlyn MenACWY ond ar gael i bobl hyd at 25 oed. Ond, mae'n bosibl yr argymhellir bod y rhai sydd â risg uwch o'r clefyd meningococol oherwydd cyflwr meddygol sy'n bodoli neu driniaeth, teithio, swydd neu oherwydd eu bod wedi dod i gysylltiad agos ag achos o glefyd meningococol hefyd yn cael y brechiad MenACWY.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
**icc.gig.cymru/brechlyn3mewn1**
**icc.gig.cymru/brechlynMenACWY**

## 3 rheswm dros gael y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 (Td/IPV) i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY:

1. Mae'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau yn cryfhau'r amddiffyniad rhag tetanws, difftheria a pholio, ac yn **amddiffyn pobl ifanc am lawer mwy o flynyddoedd**.

2. Er bod y clefyd meningococol yn brin, mae'n un difrifol iawn sy'n gofyn am driniaeth frys mewn ysbyty. Gall hyd yn oed fod yn angheuol. Mae pawb mewn perygl o gael y clefyd meningococol, ond **pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc yw'r ail grŵp risg uchaf**.

3. Mae'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY yn **ddiogel, yn effeithiol ac yn hawdd** ei gael.

**Mae'n syniad da i ddisgyblion wirio gyda'u practis meddyg teulu bod eu holl imiwneiddiadau eraill yn gyfredol gan gynnwys y rhai ar gyfer HPV (feirws papiloma dynol) ac MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela).**

**Nid yw'n rhy hwyr i fod yn gyfredol o ran brechiadau.**

## Brechiadau a fethwyd:

Gall pobl ifanc a fethodd eu brechiad atgyfnerthu yn eu harddegau neu'r MMR gael y rhain ar unrhyw oedran, ond dim ond hyd at 25 oed y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gymwys i gael brechlynnau MenACWY neu HPV. Bydd tîm nyrsio ysgol/imiwneiddio y bwrdd iechyd lleol yn darparu cyfleoedd dal i fyny naill ai fel ymweliad ychwanegol ag ysgolion, apwyntiad clinig cymunedol, neu drwy ddarparu llythyr neu gyfeirio'r person ifanc at ei feddyg teulu.

Os oes gan ddisgybl, ei rieni neu ofalwr unrhyw gwestiynau, neu bryderon am frechiadau arferol a fethwyd, gallant siarad â thîm nyrsio ysgol/imiwneiddio eu bwrdd iechyd lleol.

## Ynglŷn â'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 (Td/IPV) i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY

### Brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 (Td/IPV) i bobl ifanc yn eu harddegau:

**T: tetanws**
Mae tetanws yn afiechyd sy'n effeithio ar y system nerfol. Gall achosi sbasmau yn y cyhyrau a phroblemau anadlu, a gall ladd. Mae tetanws yn cael ei achosi pan fydd bacteria a geir mewn pridd a thail yn mynd i mewn i'r corff drwy glwyfau agored.

**d: difftheria**
Mae difftheria yn haint bacteriol hynod heintus sydd fel arfer yn dechrau â dolur gwddf ac yn fuan iawn gall achosi problemau anadlu. Gall niweidio'r galon a'r system nerfol ac, mewn achosion difrifol, gall ladd.

**IPV: polio**
Mae polio yn feirws sy'n ymosod ar y system nerfol a gall achosi parlys parhaol yn y cyhyrau. Os yw'n effeithio ar gyhyrau'r frest neu'r ymennydd, gall polio ladd.

**Ar un adeg, roedd polio yn gyffredin yn y DU a ledled y byd. Mae bellach yn brin oherwydd gellir ei atal â brechiadau.**



Mae'r brechlyn 3 mewn 1 yn cryfhau (yn rhoi hwb i) imiwneiddiadau a roddwyd i blant pan oeddent yn iau.

Mae'r brechlyn 3 mewn 1 yn **hynod effeithiol.** Mae'n cwblhau'r cwrs pum dos sy'n darparu amddiffyniad hirdymor rhag tetanws, difftheria, a pholio:

- rhoddir y 3 dos cyntaf i fabanod (rhoddwyd y brechlyn 5-mewn-1 tan 2017 ac mae'r 6-mewn-1 bellach yn cael ei ddefnyddio)
- rhoddir dos 4 yn 3 oed a 4 mis oed (y brechiad atgyfnerthu cyn-ysgol, neu'r brechlyn 4-mewn-1)
- rhoddir dos 5 ym mlwyddyn ysgol 9, yn 13 neu 14 oed (brechiad atgyfnerthu i bobl ifanc yn eu harddegau, neu'r brechlyn 3 mewn 1)

Mae'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau yn **frechlyn diogel iawn**, a roddir yn rhan uchaf y fraich.

Mae rhestr lawn o gynhwysion y brechlyn a'r sgil-effeithiau posibl ar gael yn **medicines.org.uk/emc** (safle allanol). I gael gwybodaeth am y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 rhowch 'Revaxis' yn y blwch chwilio.

Mae rhagor o wybodaeth am y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 ar gael yn **icc.gig.cymru/brechlyn3mewn1**

### Brechlyn MenACWY:

Mae'r clefyd meningococol yn cael ei achosi gan sawl grŵp o facteria meningococol, a'r rhai mwyaf cyffredin yw A, B, C, W ac Y. Gall bacteria meningococol achosi llid yr ymennydd (llid yn leinin yr ymennydd a'r asgwrn cefn) a septisemia (gwenwyn yn y gwaed). Mae'r un bacteria sy'n achosi'r afiechydon difrifol hyn hefyd yn cael eu cario'n gyffredin yng nghefn y trwyn a'r gwddf, yn enwedig ymhlith rhai yn eu harddegau hŷn ac oedolion ifanc, heb achosi unrhyw salwch.



Er bod y clefyd menigococol yn brin, mae'n un difrifol iawn sy'n gofyn am driniaeth frys yn yr ysbyty. Gall arwain at anableddau sy'n newid bywydau fel trychiadau, colli clyw, niwed i'r ymennydd a chreithiau. Os na chaiff ei ddiagnosio'n gynnar, gall hyd yn oed fod yn angheuol.

Mae brechiad yn erbyn meningococol grŵp C wedi bod ar gael ers 1999. Cyflwynwyd y brechlyn MenC i raglen frechu arferol y DU ym 1999 a'r brechlyn MenACWY yn 2015.

Ers mis Awst 2015 mae pobl ifanc yn eu harddegau a myfyrwyr prifysgol newydd wedi cael cynnig y brechlyn MenACWY i wella'r amddiffyniad rhag clefyd meningococol grŵp W (MenW). Mae'r brechlyn MenACWY yn amddiffyn rhag llid yr ymennydd a septisemia a achosir gan bedwar grŵp bacteria meningococol A, C, W ac Y.

**Ers i'r brechlyn MenC gael ei gyflwyno i raglen frechu arferol y DU ym 1999 a'r brechlyn MenACWY yn 2015, bu gostyngiad mawr mewn achosion o glefyd meningococol ym mhob grŵp oedran.**

Mae pobl ifanc mewn mwy o berygl o gael clefyd meningococol, felly mae angen iddynt gael eu brechu i amddiffyn eu hunain. Mae brechu hefyd yn lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn cario'r bacteria ac felly mae'n amddiffyn eraill o'u cwmpas. Bydd angen y brechlyn hwn arnynt hyd yn oed os ydynt eisoes wedi cael y brechlyn MenC, gan fod y brechlyn MenACWY yn amddiffyn rhag clefyd meningococol grŵp C yn ogystal â darparu amddiffyniad ychwanegol yn erbyn clefyd y grwpiau W, A ac Y.

Fel arfer rhoddir y brechiad MenACWY fel pigiad ym mhen uchaf y fraich.

Mae rhestr lawn o gynhwysion y brechlyn a'r sgil-effeithiau posibl ar gael yn **medicines.org.uk/emc** (safle allanol). I gael gwybodaeth am frechlynnau MenACWY rhowch 'Men A, C, W, Y'* yn y blwch chwilio.

Mae rhagor o wybodaeth am y brechlyn MenACWY ar gael yn **icc.gig.cymru/brechlynMenACWY**

Mae'n bwysig adnabod arwyddion a symptomau llid yr ymennydd a septisemia (clefyd meningococol). Nid oes unrhyw frechlyn yn 100% effeithiol ac mae bacteria eraill yn gallu achosi'r afiechydon hyn hefyd, gan gynnwys clefyd meningococol grŵp B nad yw'r brechlyn ACWY yn amddiffyniad iddo.

## Beth yw arwyddion a symptomau'r clefyd meningococol?

### Gwyliwch am unrhyw un o'r symptomau hyn



Twymyn, dwylo a thraed oer



Chwydu



Cysglyd, anodd deffro



Dryswch a thymer flin



Poen difrifol yn y cyhyrau



Gwelw a chroen blotiog Smotiau neu frech (gweler y prawf gwydr)



Cur pen difrifol



Gwddf stiff



Ddim yn hoffi goleuadau llachar



Confylsiynau neu drawiadau

Ffynhonnell: © meningitisnow.org

## Gwnewch y prawf gwydr

Gall rhywun â septisemia ddatblygu brech 'pigiadau pin' bach a all droi'n gleisio porffor. Nid yw'r frech hon yn pylu dan bwysau. Gallwch wneud y prawf gwydr trwy bwyso ochr gwydr yfed yn erbyn y frech. Os nad yw'r smotiau'n pylu dan bwysau, ceisiwch gymorth meddygol ar unwaith. Gall fod yn fwy anodd gweld y frech ar groen tywyll, ond gall fod yn weladwy mewn mannau mwy golau, yn enwedig gwadnau'r traed, cledrau'r dwylo, yr abdomen, neu y tu mewn i'r amrannau neu daflod y geg.



Ffynhonnell: © meningitisnow.org

Peidiwch byth ag aros nes y bydd brech yn ymddangos. Gall fod yn arwydd hwyr neu efallai na fydd yn ymddangos o gwbl.

Gall septisemia ddigwydd gyda llid yr ymennydd, neu hebddo. Nid yw pawb yn cael yr holl symptomau a gallant ymddangos mewn unrhyw drefn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn adnabod yr arwyddion a'r symptomau a cheisiwch gymorth ar unwaith os ydych yn bryderus.

**! Mae llid yr ymennydd a septisemia yn ddifrifol iawn ac mae angen cymorth meddygol brys ar eu cyfer ar unwaith. Os na allwch gysylltu â'ch meddyg, ffoniwch 999 neu ewch i adran achosion brys eich ysbyty agosaf.**



## Pecynnau cydsynio a gwybodaeth am frechiadau

Bydd **pecynnau cydsynio ar gyfer disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr** yn cael eu cyflenwi i ysgolion uwchradd cyn sesiwn frechu'r ysgol i roi'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a'r MenACWY. Gall y pecynnau hyn fod ar ffurf papur neu mewn fformat digidol.

**Fel arfer, mae pob pecyn cydsynio'n cynnwys:**

- **Llythyr (neu e-bost), taflen a ffurflen gydsynio.** Mae'r llythyr a'r daflen yn rhoi gwybodaeth i'r disgyblion a'r rhieni/gofalwyr iddynt ddeall y brechlynnau a'u manteision. Darperir gwybodaeth i alluogi cydsyniad gwybodus i bobl ifanc gael y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a MenACWY. Gofynnir i rai ysgolion anfon y rhain yn electronig.
- Mae'r taflenni hefyd ar gael mewn **fformatau hygyrch** (gan gynnwys Print Bras, Hawdd ei Ddarllen, Iaith Arwyddion Prydain a Sain). Dylid cyfeirio rhieni a gofalwyr at: **icc.gig.cymru/brechlynnau/adnoddau-hygyrch**
- **Rhaid llenwi ffurflen gydsynio cyn cael brechiad.** Weithiau bydd nyrs yn gwneud hyn gyda rhiant/gofalwr dros y ffôn. Er ein bod yn argymell bod disgyblion yn cael **cydsyniad eu rhiant neu ofalwr**, bydd rhai plant mewn ysgol uwchradd yn gallu cydsynio'n gyfreithiol drostynt eu hunain. Gall hyn gynnwys rhai plant o dan 16 oed ond dim ond os cânt eu hasesu gan nyrs neu imiwneiddiwr yn unigolion sydd â'r ddealltwriaeth angenrheidiol i wneud hynny. Gelwir hyn yn 'gymhwysedd Gillick'. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, chwiliwch 'cydsynio' yma: **www.111.wales.nhs.uk** (safle allanol).

## Sut gall eich ysgol gefnogi rhaglen frechu Brechiad Atgyfnerthu 3 mewn 1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a MenACWY

Mae'r berthynas rhwng ysgolion a thîm nyrsio ysgol ac imiwneiddio y GIG yn hanfodol ar gyfer amddiffyn iechyd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth hybu'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen imiwneiddio, oherwydd y berthynas sydd ganddynt â'r rhieni a phobl ifanc.

**Mae'r gefnogaeth i'r Rhaglen Frechu 3 mewn 1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a MenACWY yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr ac mae'n hanfodol. Defnyddiwch eich holl sianeli cyfathrebu i helpu i hyrwyddo'r niferoedd sy'n cymryd rhan a rhannwch y ddogfen friffio hon gyda staff yn eich ysgol.**

**Bydd y canlynol yn helpu i leihau aflonyddwch i'r ysgol:**

- Cyn diwrnod y brechiadau siaradwch â'r tîm nyrsio ysgol neu imiwneiddio i drefnu lleoliad a gofynion addas.
- Mae'n bwysig rhoi gwybod i rieni a gofalwyr pa ddiwrnod y bydd brechiadau'n cael eu cynnal. Bydd y pecyn cydsynio'n cynnwys yr wybodaeth hon. Sicrhewch fod pecynnau cydsynio'r ysgol yn cael eu dosbarthu i rieni a gofalwyr. Gellir anfon gohebiaeth (e.e. e-bost neu neges destun) at rieni i'w hatgoffa o'r canlynol:
  - dyddiad(au) brechu; a
  - dyddiad y mae angen iddynt ddychwelyd y ffurflen gydsynio.

Efallai y bydd gan ddisgyblion a'u rhieni gwestiynau am y brechlynnau. Rhowch wybod iddynt fod rhagor o wybodaeth ar gael yn **icc.gig.cymru/brechlyn3mewn1** a **icc.gig.cymru/brechlynMenACWY**

## Sut mae'r cydsynio'n cael ei drefnu

- Efallai y gofynnir i'ch ysgol gasglu **ffurflenni cydsynio papur wedi'u llenwi** gan rieni ar ran y tîm nyrsio ysgol neu imiwneiddio.
- Mae ffurflenni cydsynio electronig, pan fyddant yn cael eu defnyddio, yn cael eu hanfon yn uniongyrchol gan y rhiant/gofalwr at y tîm nyrsio ysgol neu imiwneiddio.
- Dylid **dychwelyd y ffurflenni erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno** gyda'r tîm nyrsio ysgol neu imiwneiddio.

## Pwy fydd yn rhoi'r brechiadau i'r plant

- Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan y tîm nyrsio ysgol neu imiwneiddio a gyflogir gan y GIG.
- Byddant yn gweinyddu'r brechiadau yn unol â safonau a bennir yn genedlaethol. Mae brechwyr y GIG yn gymwysedig ac wedi derbyn hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Maent hefyd wedi'u hyfforddi'n llawn i ateb unrhyw gwestiynau gan ddisgyblion ac athrawon am y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY.







## Rhagor o wybodaeth am y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY

- Fel pob brechlyn, mae diogelwch ac effeithiolrwydd y brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn MenACWY wedi'u profi'n drwyadl mewn treialon clinigol.
- Mae sgîl-effeithiau'r ddau frechlyn yn ysgafn fel arfer. Y sgîl-effaith mwyaf cyffredin yw braich boenus, chwyddedig neu goch ar safle'r pigiad. Mae hyn fel arfer yn diflannu o fewn ychydig ddyddiau. Sgîl-effeithiau llai cyffredin yw cur pen, cyfog a thwymyn. Mae sgîl-effeithiau difrifol yn hynod o brin.
- Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn parhau i fonitro diogelwch pob brechlyn drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn. Gall unrhyw un roi gwybod am sgîl-effeithiau posibl brechlynnau a meddyginiaethau drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn. Gellir gwneud hyn ar-lein yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol), drwy ffonio **0800 731 6789** (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm) neu chwilio am Gerdyn Melyn MHRA yn Google Play neu Apple App Store.

## Rhagor o wybodaeth am Lid yr Ymennydd

- Mae **Meningitis Research Foundation** yn elusen flaenllaw yn y DU, Iwerddon ac yn rhyngwladol sy'n dod â phobl ac arbenigedd ynghyd i drechu llid yr ymennydd a septisemia. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **meningitis.org** (safle allanol).
- Mae **Meningitis Now** yn elusen llid yr ymennydd genedlaethol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **meningitisnow.org** (safle allanol).


### Gair o ddiolch

Mae darparu rhaglenni imiwneiddio drwy ysgolion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar frechlynnau'n rhwydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod nifer uchel yn cael eu brechu a llai o anghydraddoldebau iechyd i blant a phobl ifanc.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ysgolion wrth gynnal y sesiynau brechu hyn, ac am gyfathrebu â rhieni a gofalwyr pan fydd y brechiadau atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a sesiynau imiwneiddio MenACWY yn cael eu cynnal.


**Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynghylch cyflwyno'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 i bobl ifanc yn eu harddegau a rhaglen frechu MenACWY yn eich ysgol, cyfeiriwch y rhain at dîm nyrsio ysgol/imiwneiddio y bwrdd iechyd lleol.**

Mae rhagor o wybodaeth am detanws, difftheria, polio a'r brechiad atgyfnerthu 3 mewn 1 ar gael yn: **icc.gig.cymru/brechlyn3mewn1**

Mae rhagor o wybodaeth am glefyd meningococol a'r brechlyn MenACWY ar gael yn: **icc.gig.cymru/brechlynMenACWY**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

© Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban)
Fersiwn 1 | Mehefin 2024 | ISBN 978-1-83766-392-7